Barn Gyhoeddus am Goedwigaeth 2009, Cymru

11 Mehefin 2009

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys canfyddiadau dros dro ar gyfer arolwg Barn Gyhoeddus am Goedwigaeth Cymru 2009. Mae'r canfyddiadau'n cyflwyno barn atebwyr ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys manteision coedwigaeth, y defnydd o danwydd coed, prynu cynnyrch coed, ymweld â choetiroedd a chysylltiad cymunedol.

Cynhaliwyd yr arolwg rhwng 6 ac 18 Mawrth 2009 fel rhan o arolwg omnibws Cymru Ymchwil Beaufort lle cyfwelwyd 1,002 o atebwyr ledled Cymru. Cyflwynir canfyddiadau cryno isod.

Cyhoeddwyd gan: Economics & Statistics, Forestry Commission,
231 Corstorphine Road, Edinburgh, EH12 7AT
Ymholiadau: Jackie Watson 0131 314 6171
statistics@forestry.gsi.gov.uk
Ystadegydd: Gilly Diggins 0131 314 6218
Gwefan: www.forestry.gov.uk/statistics

Manteision ac Anfanteision Coedwigaeth a Choetiroedd

- Pan ofynnwyd iddynt ynglŷn â'r manteision y mae coetiroedd yn eu darparu ar gyfer y gymuned leol, roedd tua phedwar o bob pum atebwr yn cytuno eu bod yn "darparu lleoedd i fywyd gwyllt fyw", tra bod saith o bob deg yn cytuno bod coetiroedd yn "darparu lleoedd ar gyfer hamdden" ac yn "gwella'r dirwedd". Roedd chwech o bob deg atebwr hefyd yn cydnabod bod coetiroedd yn "darparu lleoedd ar gyfer ymlacio a gollyngdod straen".

- Pan ofynnwyd iddynt a oedd unrhyw faterion cysylltiedig â choetir a oedd o anfantais i'w cymuned leol, roedd dros hanner yr atebwyr (57 y cant) yn meddwl nad oedd unrhyw anfanteision. Fodd bynnag, roedd un rhan o bump o atebwyr (17 y cant) yn meddwl bodd coetiroedd lleol yn darparu lle ar gyfer gweithgarwch troseddol ac roedd un o bob deg yn meddwl na allent reoli'r hyn roedd yn digwydd ynddynt.

- Gofynnwyd i atebwyr ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn ei hoffi ac yn ei gasáu am eu tirwedd leol. Y nodweddion mwyaf poblogaidd oedd "bryniau/mynydd agored neu rostir" (65 y cant o atebwyr), yna "coed" (63 y cant), "lleoedd agored e.e. parciau" (61 y cant), "coetir neu goedwig" (59 y cant) a "dŵr e.e. môr, afonydd, llynnoedd, camlesi" (56 y cant).

- Pan ofynnwyd iddynt beth yr oeddent yn ei gasáu am eu tirwedd leol, yr ateb mwyaf cyffredin oedd "adeiladau e.e. eglwysi, tai a.y.y.b." gyda 13 y cant o atebwyr yn dyfynnu hyn. Dywedodd dros ddwy ran o dair (69 y cant) nad oedd unrhyw beth yr oeddent yn ei gasáu am eu tirwedd leol.

Y Defnydd o Danwydd Coed

- Adroddodd 14 y cant o atebwyr eu bod yn defnyddio coed fel tanwydd yn eu cartrefi.

- O'r rheiny a adroddodd eu bod nhw'n defnyddio coed fel tanwydd, dywedodd 51 y cant eu bod yn ddefnyddwyr rheolaidd a dywedodd 18 y cant eu bod yn defnyddio coed fel eu prif danwydd. Roedd y rhan fwyaf o atebwyr naill ai'n cael eu coed fesul ychydig o fagiau ar y tro (43 y cant) neu'n ei gasglu eu hunain (39 y cant), yn hytrach na chael llwyth tryc/fan (11 y cant).

- Ar gyfer y rheiny nad oeddent yn defnyddio coed fel tanwydd, dywedodd dwy ran o bump eu bod nhw'n hapus gyda'u system bresennol. Dywedodd 35 y cant arall nad oedd yn ymarferol ar gyfer eu heiddo.

Prynu Cynnyrch Coed

- Gofynnwyd i atebwyr a oeddent wedi prynu cynnyrch coed yn y 12 mis diwethaf. Roedd dros hanner yr atebwyr (56 y cant) wedi prynu cynnyrch coed, a'r cynnyrch mwyaf cyffredin a brynwyd oedd "dodrefn" (30 y cant), "coed arall ar gyfer cynnyrch creu yn y cartref" (17 y cant), "llawr" (13 y cant) a "dodrefn/offer garddio" (12 y cant).

- Gofynnwyd i atebwyr hefyd a oeddent yn adnabod logos y Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) a'r Rhaglen ar gyfer Cymeradwyo Cynlluniau Ardystio Coedwigoedd (PEFC). Roedd dros draean o atebwyr (36 y cant) yn adnabod symbol FSC, tra'r oedd 12 y cant yn adnabod logo PEFC.

Ymweld â Choetiroedd

- Dywedodd bron dwy ran o dair (63 y cant) y gallent gyrraedd coedwigoedd neu goetiroedd yn hawdd heb ddefnyddio car neu gludiant arall. O'r rhain, roedd 28 y cant yn ymweld â'r coedwigoedd neu goetiroedd hyn o leiaf unwaith yr wythnos, roedd 26 y cant yn ymweld â nhw o leiaf unwaith y mis ond llai nag unwaith yr wythnos, roedd 28 y cant yn ymweld â nhw llai nag unwaith y mis, tra'r oedd 18 y cant byth wedi ymweld â nhw.

- Roedd dwy ran o dair (65 y cant) wedi adrodd eu bod nhw'n ystyried "heddwch a thawelwch" a "golygfa ddeniadol" yn bwysig wrth ddewis i ymweld â choetir. Roedd ffactorau eraill fel "bywyd gwyllt", "yn dda ar gyfer ymarfer corff" ac "yn agos/hawdd i'w gyrraedd" hefyd yn cael eu hystyried yn uchel, gyda dros hanner yr atebwyr yn eu nodi nhw'n bwysig.

Cysylltiad Cymunedol

- Adroddodd pump y cant o atebwyr yr ymgynghorwyd â nhw ynglŷn â chynlluniau ar gyfer creu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eu hardal. Pan ofynnwyd iddynt a hoffent gael eu hymgynghori yn y dyfodol, dywedodd tua thraean (32 y cant) o'r holl atebwyr y byddent.

- O'r rheiny a ddywedodd yr ymgynghorwyd â nhw yn y gorffennol, roedd hanner yn teimlo eu bod nhw wedi dylanwadu ar benderfyniadau ynglŷn â chreu, rheoli neu ddefnyddio coetiroedd yn eu hardal. O'r rheiny a ddywedodd y byddent yn hoffi cael eu hymgynghori yn y dyfodol, roedd ychydig dros hanner (53 y cant) yn teimlo y byddent yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau.

- Gofynnwyd i atebwyr a oedd unrhyw un yn eu teulu wedi mynychu gweithgaredd neu ddigwyddiad dysgu wedi'i drefnu a oedd yn ymwneud â choetiroedd yn y 12 mis diwethaf, a nododd 19 y cant mai dyma oedd yr achos. Roedd digwyddiadau a fynychwyd yn cynnwys teithiau ysgol (11 y cant o atebwyr neu eu teuluoedd), teithiau cerdded neu sgwrs dan arweiniad (7 y cant), cwrs neu ddigwyddiad hyfforddi wedi'i drefnu (4 y cant) neu ddigwyddiad plannu coed (3 y cant).

- Dywedodd 3 y cant o atebwyr eu bod nhw wedi cymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol mewn cysylltiad â choetiroedd yn y 12 mis diwethaf. Yn yr un modd, dywedodd 3 y cant o atebwyr eu bod nhw'n rhan o grŵp cymunedol sy'n ymglymedig â gwarchod a/neu reoli coetiroedd lleol.

Cefndir

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cynnal arolygon tebyg o agweddau cyhoeddus am goedwigaeth a materion cysylltiedig i goedwigaeth pob dwy flynedd er 1995. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau dros dro Barn Gyhoeddus am Goedwigaeth Cymru 2009 a gyflawnwyd rhwng 6 ac 18 Mawrth 2009.

Bydd canlyniadau manwl terfynol yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref 2009.

Casglu Data

Cyflawnwyd arolwg 2009 gan y cwmni ymchwil i'r farchnad, Ymchwil Beaufort, yn eu harolwg omnibws Cymru. Mae'r sampl omnibws wedi cael ei gynllunio i gynrychioli'r boblogaeth o oedolion dros 16 mlwydd oed sy'n preswylio yng Nghymru. Ward etholiadol yw'r uned sampl a dewiswyd 68 pwynt cyfweld gyda thebygolrwydd yn gyfatebol i'r boblogaeth o oedolion preswyl ar ôl haeniad mewn awdurdod unedol. Gosodwyd cwotâu cyfweld i adlewyrchu proffil demograffig preswylwyr Cymru ar gyfer oedran, dosbarth cymdeithasol a rhyw, a chynhaliwyd y cyfweliadau wyneb yn wyneb yng nghartrefi atebwyr.

Tablau Data

Mae tablau sy'n cyflwyno canfyddiadau llawn yr arolwg ar gael ar fformat pdf gyda'r datganiad hwn.

Cyhoeddiadau eraill:

Mae canfyddiadau arolygon barn gyhoeddus eraill ar gael ar dudalennau ystadegau gwefan y Comisiwn Coedwigaeth: http://www.forestry.gov.uk/forestry/infd-5zyl9w

Ystadegau Swyddogol:

Mae hwn yn gyhoeddiad Ystadegau Swyddogol. Am fwy o wybodaeth am Ystadegau Swyddogol ac Awdurdod Ystadegau'r DU, ewch i www.statisticsauthority.gov.uk/.